

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

YMDDIRIEDOLAETH  
ELUSENNOL YNYS MON  
ISLE OF ANGLESEY  
CHARITABLE TRUST

---

5 Rhagfyr/December, 2018

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr  
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **ddydd Mercher, 12 Rhagfyr, 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 9.30 o'r gloch** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

*Dr Gwynne Jones*

**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee  
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Wednesday, 12 December, 2018 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 9.30 a.m.**, to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,

*Dr Gwynne Jones*

**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary** : Dr. Gwynne Jones

**Trysorydd/Treasurer** : Mr. Marc Jones

Swyddfa'r Sir/County Offices,  
Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057

## R H A G L E N

### **1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### **2 COFNODION (Tudalennau 1 - 2)**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 18 Medi, 2018.

### **3 ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL (Tudalennau 3 - 4)**

#### **Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

Cyflwyno cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gafwyd ar 6 Tachwedd, 2018.

### **4 GRANTIAU MAWR - DIWEDDARIAD (Tudalennau 5 - 10)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

### **5 PROSES DYRANU GRANTIAU MAWR (Tudalennau 11 - 12)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

### **6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 13 - 14)**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### **7 PWYLLGOR NEUADD BENTREF LLANDDONA - CAIS AM GRANT MAWR (Tudalennau 15 - 18)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

### **8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 19 - 20)**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### **9 CLWB PEL-DROED BAE CEMAES - CAIS AM GRANT MAWR (Tudalennau 21 - 24)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

### **10 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 25 - 26)**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu**

datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

**11** **CYMDEITHAS Y BYDDAR GOGLEDD CYMRU - GRANT BACH** (Tudalennau 27 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

This page is intentionally left blank

## Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018

<b>PRESENNOL:</b>	T LI Hughes MBE (Cadeirydd) Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)
	Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, Llinos Medi Huws, R LI Jones, G O Jones, R. Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams
<b>WRTH LAW:</b>	Ysgrifennydd, Trysorydd.
	<b>Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitl eu swyddi gyda CSYM)</b>
	Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, R G Parry OBE FRAGS, J A Roberts, Margaret M Roberts ac Ieuan Williams.
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Dim

---

#### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Mr Richard O Jones ddi-ddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 – Cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol (Eitem 5, Grantiau Blynyddol 2018/19 – Cais 019 Clwb Pêl Droed Amlwch).

#### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2018.

##### Yn codi o'r Cofnodion

##### Ysgol Gyfun Llangefni – Cystadleuaeth 'Fformiwla 1 i Ysgolion' – Cais am arian

Dyweddodd y Trysorydd fod disgyblion o Flwyddyn 11 Ysgol Gyfun Llangefni wedi cystadlu yn y gystadleuaeth 'Fformiwla 1 i Ysgolion' yn Singapore yn ddiweddar. Roedd y Trysorydd yn falch o adrodd fod Ysgol Gyfun Llangefni wedi ennill y wobr 'Hunaniaeth Tîm Gorau Ferrari'. Yn ogystal, mae Elin Pierce ac Owain Roberts, dau ddisgybl o Ysgol Gyfun Llangefni, wedi ennill ysgoloriaeth 'Academi Peirianeg Williams'. Roedd y ddau ddisgybl yn rhan o'r tîm a roddodd gyflwyniad i gyfarfod yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar 27 Mehefin, 2018.

Dyweddodd yr Ysgrifennydd fod hwn yn gyflawniad nodedig gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Llangefni. Dywedodd y byddai'n anfon llythyr ar ran yr Ymddiriedolaeth Elusennol at Bennaeth Ysgol Gyfun Llangefni a'r disgyblion a gymerodd ran yn y gystadleuaeth i'w llongyfarch ar eu llwyddiant.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno llongyfarch disgyblion Ysgol Gyfun Llangefni hefyd a dywedodd ei bod yn galonogol fod y cyfraniad o £10k gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol a chyfraniadau gan sefydliadau eraill wedi denu'r fath anrhydedd i'r ysgol a'r Ynys.

### 3 ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2018 er gwybodaeth.

### 4 CAIS AM GRANT BACH - RADIO YSBYTY GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd fod cais am Grant Bach wedi'i gyflwyno gan Radio Ysbyty Gwynedd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf, 2018 am swm o £6,882 fyddai'n caniatáu iddynt uwchraddio eu hoffer darlledu yn eu stiwdio yn Ysbyty Gwynedd. Roedd Swyddogion yn argymhell gwrthod y cais oherwydd bod Ysbyty Gwynedd yn darparu gwasanaeth i nifer fawr o gleifion nad ydynt yn byw yn Ynys Môn ac, o'r herwydd, y byddai'n groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth.

Yn gyffredinol, roedd aelodau'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol o blaid cefnogi'r cais, ac yn cydnabod y budd y mae cleifion Ysbyty Gwynedd yn ei gael o'r gwasanaeth, ond roeddent yn derbyn y gallai dyfarnu'r grant fod yn groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth. Penderfynodd y Pwyllgor ofyn am gyngor pellach gan Gyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r mater ac i ddirprwyo'r penderfyniad terfynol i'r Trysorydd. Yn dilyn hynny, trafodwyd y mater gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth a oedd yn cytuno gyda dehongliad gwreiddiol y Swyddogion o Weithred yr Ymddiriedolaeth, gan y byddai trigolion tu hwnt i'r Ynys yn elwa cymaint â thrigolion Ynys Môn.

Cafwyd sylwadau gan rai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth, er eu bod yn gwbl gefnogol o'r gwasanaeth a ddarperir gan Radio Ysbyty Gwynedd, eu bod yn ystyried y byddai cefnogi'r cais am nawdd grant yn torri amodau Gweithredoedd yr Ymddiriedolaeth gan y byddai'n elwa trigolion o du allan i Ynys Môn. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod Gweithredoedd yr Ymddiriedolaeth yn nodi y dylai grantiau'r Ymddiriedolaeth Elusennol fod yn rhai er lles trigolion yr Ynys. Ysbyty Gwynedd yw'r prif ysbyty cyffredinol ar gyfer Ynys Môn a tra derbynnir fod pobl o'r tir mawr yn cael eu trin yn yr ysbyty, y cyfaddawd o ran y cais hwn yw ystyried y cyfran o drigolion Ynys Môn sydd wedi bod yn gleifion yn yr ysbyty dros y 2 ½ flynedd diwethaf sef 33%. Drwy weithredu'r canran hwn i'r cais grant gwreiddiol byddai hynny'n rhoi cynnig grant diwygiedig o £2,271.

Yn dilyn trafodaeth bellach, **PENDERFYNWYD fod yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo dyfarnu grant o £2,271 i Radio Ysbyty Gwynedd, ar yr amod fod Swyddogion yn derbyn y cadarnhad arferol a thystiolaeth fod arian wedi ei wario er mwyn prynu'r offer y manylir arno yn y cais gwreiddiol.**

Ataliodd Mr K P Hughes a Mr Bryan Owen eu pleidlais.

**Mr T LI Hughes MBE  
Cadeirydd**

## PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018

<b>YN BRESENNOL:</b>	K P Hughes, T LI Hughes MBE, G O Jones, Alun W Mummery, Dafydd Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams.  R O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn
<b>WRTH LAW:</b>	Trysorydd,  <b>Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn allan yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)</b>  Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Dafydd Rhys Thomas
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Ms Carli Watson a Mr Tommy Doan – HSBC Global Management (UK) Limited

---

#### 1 ETHOL CADEIRYDD

Cafodd Mr T LI Hughes MBE ei ethol yn Gadeirydd.

#### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Cafodd Mr Dafydd Roberts ei ethol yn Is-gadeirydd.

#### 3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim

#### 4 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017.

*(Cadarnhawyd y cofnodion gan gyfarfod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2017.)*

#### 5 RHEOLI BUDDSODDIADAU

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Management (UK) Limited hyd at ddiwedd Hydref 2018.

Rhoddodd cynrychiolwyr HSBC drosolwg manwl o bortffolio buddsoddi'r Ymddiriedolaeth Elusennol o fewn cyfrif Twf ac Incwm Gwasanaeth Elusennau'r DU. Roedd gwerth y portffolio yn £21,381,961.84 fel ar 30 Hydref, 2018. Hysbyswyd y Pwyllgor am y datblygiadau allweddol yn y farchnad a nodwyd bod dechrau cryf i 2018 wedi'i amharu arno wrth i'r farchnad ddychwelyd i fod yn gyfnewidiol gyda phryderon yn dychwelyd am arenillion bondiau, lefelau uwch o chwyddiant a chwyddiant cyflymach yn yr Unol Daleithiau. Cafodd y dirywiad ei adfer yn ail hanner mis Chwefror wrth i'r buddsoddwyr ganolbwyntio ar gefndir o dwf economaidd byd-eang ac enillion corfforaethol cadarnhaol. Cafodd gwendid pellach yn y farchnad ei nodi ym mis Mawrth gan bryderon dros gryfder yr economi byd-eang a chynnydd mewn amddiffyn masnach, ynghyd â phryderon penodol dros fwy o reoliadau yn y sector technoleg. Bu marchnadoedd sefydlogi ym mis Ebrill wrth i densiynau masnach byd-eang a phryderon am chwyddiant yn yr Unol Daleithiau leihau. Roedd y

bunt i lawr ym mis Ebrill yn erbyn cryfder eang y ddoler UD. Bu tensiynau masnach yr Unol Daleithiau â Tsieina gysgodi'r marchnadoedd ecwiti ym mis Mehefin gyda bondiau ac ecwitiâu newydd yn cael eu pwyso i lawr gan ddata gweithgaredd Tsieineaidd gwannach na'r disgwyl a chynnydd Fed mewn cyfraddau llog o 0.25%. Nodwyd ymhellach bod marchnadoedd ariannol yn sensitif i ddatblygiadau gwleidyddol.

**PENDERFYNWYD diolch i gynrychiolwyr y Tîm Elusennau HSBC am fynychu'r cyfarfod ac i dderbyn yr adroddiad.**

## **6 DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MAWR**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mawr yn 2019.

Adroddodd y Trysorydd, Yn ystod y dair mlynedd ddiwethaf, rhoddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn swm o arian o'r neilltu er mwyn cyllido ceisiadau llwyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Dyrannwyd £200,000 yn 2016 a £350,000 yn 2017 a 2018. Yn achos 2018, hysbysebwyd y broses ymgeisio yn eang ac, o ganlyniad, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 34 o geisiadau gan sefydliadau yn gofyn am gymorth – gyda'r ceisiadau i gyd yn dod i gyfanswm o £1.48m. Wedi i'r Pwyllgor Adfywio asesu ac ystyried y ceisiadau, bu 14 ohonynt yn llwyddiannus a chafodd y swm llawn o £350,000 ei ddyrannu mewn grantiau.

Ym 2017, ystyriodd y Pwyllgor hwn 3 opsiwn i benderfynu ar y swm i'w ddyrannu:-

- Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (heb gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i mewn i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
- Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (gan gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
- Cadw'r swm a ddyrannwyd fel y flwyddyn flaenorol h.y. £350,000.

**Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD argymhell 'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn bod swm o £350,000 yn cael ei ddyrannu fel yn y flwyddyn flaenorol tuag at grantiau mwy.**

**Mr T LI Hughes MBE  
Cadeirydd**



**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>12 RHAGFYR 2018</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>DIWEDDARIAD AR GYNNYDD</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>Darparu diweddariad ar statws y grantiau mawr a ddyfarnwyd yn 2017 a 2018.</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>Gofynnir i Aelodau'r Ymddiriedolaeth nodi cynnwys yr Adroddiad.</b>

**1. CEFNDIR**

1.1 Cafodd deuddeg o grantiau mwy eu dyfarnu yn 2017/18 a pedwar ar ddeg yn 2018/19. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd gwariant a lefelau'r grantiau sydd wedi eu hawlio hyd yma.

**2. GRANTIAU A DDYFARNWYD A CHYNNYDD**

2.1 Mae'r grantiau mwy canlynol wedi eu dyfarnu dros y ddwy flynedd ddiwethaf:-

<b>2017</b>				
<b>Ymgeisydd</b>	<b>Grant</b>	<b>Gweithgaredd Prosiect</b>	<b>Cynnydd</b>	<b>Grant a hawliwyd</b>
Canolfan Ucheldre	£30,000	12 mis o gostau rhedeg: Cyfanswm Cost £60,000	Roedd y cyllid yn cefnogi costau rhedeg cyffredinol y Ganolfan, staffio, marchnata a hysbysebu rhaglen o ddigwyddiadau yn cynnwys gweithdai, arddangosfeydd, drama, ffilmiau, darllediadau lloeren byw a digwyddiadau llenyddol. Mae cyllid referniw parhaus ar gyfer y Ganolfan yn parhau i fod yn broblem. Cyfanswm Gwariant £61,817	£30,000
Cyngor Cymuned Llanfair ME	£10,000	Gosod System TCC newydd	Gwaith wedi'i gwblhau. Cyfanswm Gwariant £47,816	£10,000
Canolfan Hamdden Biwmares	£45,000	12 mis o gostau rhedeg ac ehangu'r cyfleusterau a'r digwyddiadau sydd ar gael. Cyfanswm cost: £90,000	Roedd y grant yn cefnogi rhaglen o weithgareddau a gwaith ymgynghori gan edrych i gynyddu busnes ar gyfer y Ganolfan ac er mwyn ei gwneud yn fwy cynaliadwy. Cyfanswm gwariant £90,752	£45,000

2017				
Ymgeisydd	Grant	Gweithgaredd Prosiect	Cynnydd	Grant a hawliwyd
MIND Gwynedd ac Ynys Môn	£20,000	12 mis o gostau rhedeg. Cyfanswm cost £40,000	Darparodd Mind nifer o gyrsiau Hunan-Reoli Gorbryder o fewn cymunedau. Fe wnaethant hwyluso Grwpiau Cymorth Cyfoedion a Chyrsiau Meddylfryd a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gyfer oedolion a rhai 11-18 oed yn ogystal â gwaith un i un â chleientiaid. Cyfanswm Gwariant £37,770	£20,000
Parc Caergybi a Sinema'r Empire (Cyngor Tref Caergybi)	£50,000	Ailddatblygu Parc Caergybi a datblygiad Sinema'r Empire. Cyllid yr Ymddiriedolaeth i'w ddefnyddio'n benodol ar gyfer uwchraddio'r Parc. Cyfanswm cost £383,000	Yn dilyn gwrthodiad o'r bid Loteri, bu'n rhaid ail ddylunio'r prosiect er mwyn darparu ail ddatblygiad Pafiliwn y Parc a'r gwaith tirlunio yng Ngham 1. Agorodd y Pafiliwn yn ystod yr Haf. Yn chwilio am gyllid pellach ar gyfer Sinema'r Empire ar hyn o bryd. Cyfanswm Gwariant hyd yma £126,132	£50,000
Neuadd Bentref Llanddona	£45,000	Prynu'r hen ysgol er mwyn datblygu Neuadd Bentref newydd ar gyfer Llanddona. Cyfanswm cost £353,019	Cafodd yr Ysgol ei phrynu yn Awst 2018 ac mae'r gwaith ailwampio yn parhau. Mae gwaith na chafodd ei ragweld wedi golygu cynnydd mewn costau ac mae Pwyllgor y Neuadd Bentref yn chwilio am gyllid ychwanegol ar hyn o bryd. Cyfanswm gwariant hyd yma £132,514	£27,447
Hyb Cyflogaeth a Hyfforddiant (Môn CF Ltd)	£35,000	Datblygiad Hyb Cyflogaeth a Hyfforddiant. Cost Gwreiddiol o £834,000. Costau wedi'u hadolygu - £677k	Cafodd Cyllid Adfywio o £295,000 ei gymeradwyo yn Ionawr 2018. Cafodd cyllid CFAP o £161,087 ei gymeradwyo yn Ebrill 2018. Cafodd swyddfeydd Stryd y Farchnad eu prynu ym Mawrth 2018 ac mae gwaith ailddatblygu yn parhau gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith erbyn Mawrth 2019. Cafodd yr hen adeilad Cybi Electrics ei brynu ym mis Mehefin ac mae'r gwaith ailddatblygu bron â gorffen. Cyfanswm gwariant hyd yma £416,984	£35,000

<b>2017</b>				
<b>Ymgeisydd</b>	<b>Grant</b>	<b>Gweithgaredd Prosiect</b>	<b>Cynnydd</b>	<b>Grant a hawliwyd</b>
Adeiladu Cymunedau (Medrwn Môn)	£25,000	Costau rhedeg i gefnogi ac ehangu'r Prosiect Adeiladu Cymunedau. Cyfanswm cost £40,963	Prosiect wedi'i gwblhau. Cyfanswm Gwariant £40,244	£24,770.74 (tanwariant bach)
Rheilffordd Ganolog Môn	£25,000	Ail gyflwyno coridor rheilffordd Gaerwen i Amlwch. Cyfanswm cost £1,063,800	Cafodd y grant ei dalu a does dim diweddariad wedi bod gan y Rheilffordd o ran cynnydd wrth geisio sicrhau cyllid arall. Cyfanswm gwariant £25,000	£25,000
Clwb Bocsio Caergybi	£20,000	Estyniad ac ailwampio cyfleusterau. Cyfanswm cost £200,000	Mae oedi sylweddol wedi bod gyda chyflwyniad y cais Loteri ac felly does dim cynnydd pellach wedi'i wneud gyda'r prosiect.	DIM
Gorsaf Drenau Llangefni (Cwmni Tref)	£25,000	Ail ddatblygu hen adeilad yr Orsaf Rheilffordd Cyfanswm Cost £1,067,460	Hyfywdra'r cynllun ac a yw am symud ymlaen yn cael ei adolygu gan Cwmni Tref.	DIM
Byncws Cadetiaid Môr Caergybi	£20,000	Rhoi to newydd ar y Byncws. Cyfanswm cost £48,000	Golygodd y gostyngiad yn y dyraniad gan yr Ymddiriedolaeth o gymharu â'r cais gwreiddiol bod diffyg cyllidol. Mae ffynonellau cyllidol pellach yn dal i gael eu chwilio amdanynt ac ni all y prosiect fynd yn ei flaen tan i hynny ddigwydd. Bydd angen ymgymryd â phroses dendro newydd.	DIM
<b>Cyfanswm</b>	<b>£350,000</b>			<b>£267,218</b>

2018				
Ymgeisydd	Grant	Gweithgaredd Prosiect	Cynnydd	Grant a hawliwyd
Neuadd Bentref Aberffraw	£43,100	Darpariaeth cyfleuster toiled cyhoeddus yn y Neuadd Bentref a Maes Parcio newydd o flaen y Neuadd.	Gwaith bron â gorffen. Gwariant hyd yma £32,000	£30,686
Cyngor Ar Bopeth	£39,794	Cymorth ar gyfer costau rhedeg craidd a chostau staffio uwch er mwyn darparu sesiynau galw heibio allgymorth a llinell ffôn ddynodedig ar gyfer Credyd Cynhwysol.	Staff bellach yn eu swyddi a'r ddarpariaeth gwasanaeth wedi dechrau ym mis Gorffennaf. Gwariant hyd yma £11,388	£9,948.50
Neuadd Bentref Llanfair-yng-hornwy	£22,343.60	Ailwampio'r Neuadd Bentref.	Mae'r gwaith adeiladu a gosod system wresogi newydd wedi'i gwblhau. Gwaith addurno yn digwydd ar hyn o bryd. Gwariant hyd yma £15,343	£15,343
Beiciau Gwaed Cymru	£7,590	Prynu beic modur newydd.	Prynwyd y beic modur yn Awst. Cyfanswm Gwariant £15,120	£7,590
Clwb Rygbi Llangefni	£18,000	Adeiladu stand newydd i wylwyr a Chytiau Cysgodi (dugouts).	Gwaith wedi'i gwblhau. Cyfanswm Gwariant £31,462	£18,000
Ffrindiau Moelfre	£26,900	Darpariaeth maes chwarae antur pren ym Moelfre.	Gwaith wedi'i gwblhau. Cyfanswm Gwariant £35,887	£26,900
Côr Ieuenctid Môn	£13,762	Cyllid i sefydlu canolfan newydd i'r côr ym Mharc Mount. Darpariaeth Piano a chelfi.	Gwaith wedi'i gwblhau. Cyfanswm gwariant £17,213	£13,762
Ymddiriedolaeth Colofn Môn	£10,000	Cyllid ar gyfer cael ymgynghorwyr i ysgrifennu Cais Loteri Cam 1 er mwyn adnewyddu Tŵr Marcwis a'r bwthyn.	Gwaith ymgynghori wedi ei gwblhau ac mae'r Cais Loteri Cam 1 wedi bod yn llwyddiannus. Mae Grant Cyfnod Datblygu wedi'i ddyfarnu i'r prosiect er mwyn gweithio ar y cais llawn. Cyfanswm Gwariant £23,040	£10,000

2018				
Ymgeisydd	Grant	Gweithgaredd Prosiect	Cynnydd	Grant a hawliwyd
Band Biwmares	£10,000	Cyllid i gefnogi costau'r Band leuenctid wrth iddynt gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth fawr yn Utrecht.	Daeth y Band leuenctid yn 3ydd yn y Gystadleuaeth. Cyfanswm Gwariant £26,091	£10,000
Neuadd Goffa Bodwrog	£24,650	Rhaglen o waith er mwyn trwsio a gwella cyfleusterau yn y Neuadd Goffa gan gynnwys gwaith trydanol, trwsio'r to, gwresogi a toiledau newydd.	Mae gan y prosiect fwch sylweddol o ran cyllid yn dal i fod a does dim modd i'r prosiect fynd yn ei flaen. Cyllid ychwanegol yn cael ei chwilio amdano.	DIM
Banc Bwyd Ynys Môn	£20,000	Prynu cerbyd trydan er mwyn danfon eitemau o'r banc bwyd.	Mae Cadeirydd gwreiddiol y grŵp wedi ymddiswyddo ac nid yw'r Cadeirydd newydd wedi penderfynu a ddylid parhau â'r prosiect.	DIM
Clwb Pêl-droed Bae Cemaes	£37,170	Darparu golau newydd i'r Prif Gae a gosod llifoleuadau newydd ar y Cae Ymarfer. Cyfanswm Cost £52,170	Gwaith wedi'i ail-dendro yn dilyn oedi yn y prosiect ac arolwg strwythurol pellach o'r colofnau presennol. Costau'r prosiect bellach yn sylweddol uwch na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau. Angen cyllid pellach er mwyn gallu gwneud y gwaith ar y cae ymarfer.	DIM
Tudur Cyf	£6,000	Trwsio to'r Ganolfan.	Gwaith wedi'i drefnu i ddigwydd cyn diwedd y flwyddyn.	DIM
Cymdeithas Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch	£66,414	Ail wynebu'r Maes Parcio Ymwelwyr ar Fynydd Parys a gwell arwyddion a rhwystr mynediad.	Yn dilyn dyfarniad y grant, gwelwyd y byddai angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer y gwaith, felly cafwyd oedi i'r prosiect. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn dechrau'r tymor nesaf.	DIM
<b>Cyfanswm</b>	<b>£345,723.60</b>			<b>£142,229.50</b>

2.2 Mae Cytundebau Cyllid yn eu lle gyda'r holl brosiectau lle mae cyllid cyfatebol wedi'i sicrhau a bod y prosiect yn gallu datblygu. Mae'r holl Gytundebau Cyllid wedi eu harwyddo a'u dychwelyd er mwyn derbyn Amodau a Thelerau'r Grant.

This page is intentionally left blank

<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR</b>	<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>12 RHAGFYR 2018</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>PROSES DYFARNU GRANTIAU MWY</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Cytuno ar y broses ar gyfer dyfarnu grantiau mwy gan gynnwys penderfynu lefel y cyllid fydd ar gael a'r broses ar gyfer monitro'r grantiau a ddyfernir</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	<b>TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>GWEITHREDU</b>	<b>Penderfynu derbyn yr argymhellion a gyflwynwyd gan Swyddogion yr Ymddiriedolaeth</b>

## 1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Ers 2016, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dyfarnu grantiau mwy gyda gwahoddiad agored i fudiadau i gyflwyno ceisiadau am gymorth. Yn 2018, derbyniwyd cyfanswm o 34 o geisiadau a bu 14 o'r sefydliadau'n llwyddiannus, gan dderbyn grantiau o rhwng £6,000 a £66,414, gyda cyfanswm grantiau o £349,768 yn cael eu dyfarnu.
- 1.2 Mae adroddiad sy'n ymhelaethu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob prosiect wedi'i gynnwys fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor hwn.

## 2. PARHAU I DDYFARNU GRANTIAU MWY

- 2.1 Pwrpas yr Ymddiriedolaeth yw defnyddio'r gronfa er budd pobl Ynys Môn yn unol ag amcanion yr Ymddiriedolaeth. Mae dyfarnu'r grantiau mwy wedi cyfrannu at gyflawni'r amcan hwn, ond gellir dadlau nad yw'r dull hwn o ddsbarthu'r cyllid yn ffordd strategol o wneud hynny ac efallai nad yw'n arwain at sicrhau'r budd mwyaf i drigolion Ynys Môn, h.y. asesir ceisiadau yn ôl eu rhinweddau ac yn ôl a ydynt yn bodloni meini prawf yr Ymddiriedolaeth yn hytrach nag ar sail sut maent yn integreiddio i gyflawni amcan strategol ehangach ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.
- 2.2. Ni all yr Ymddiriedolaeth gyfredol gyflogi ei staff ei hun ac, o ganlyniad, mae cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei gyflawni ac mae'n debyg mai dosbarthu grantiau yn y modd hwn yw'r gorau y gall yr Ymddiriedolaeth ei wneud o ystyried yr adnoddau presennol. Bydd symud i Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) yn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth ailystyried sut mae'n defnyddio ei chronfeydd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i bobl Ynys Môn.
- 2.3. Felly, cynigir bod y broses grantiau mwy yn cael ei dilyn eto yn 2019 a'i bod yn destun adolygiad gan y SCE ynghylch a ddylid parhau i ddyfarnu grantiau mwy yn parhau ar ôl hynny.

## 3. CYLLIDO GRANTIAU MWY

- 3.1. Cyfarfu'r Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau ar 6 Tachwedd 2018 ac, ar ôl ystyried perfformiad y portffolio buddsoddi dros y 12 mis blaenorol ynghyd â'r risgiau a'r angen i gynnal gwerth y gronfa ar lefel sy'n cynhyrchu digon o incwm blyneddol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r swm sydd ar gael ar gyfer grantiau mwy barhau ar yr un lefel ag yn 2018 h.y. £350,000.

#### **4. Y BROSES O WNEUD CAIS AM GRANTIAU MWY**

- 4.1. Fe weithiodd y broses ymgeisio yn dda yn 2018, cafwyd nifer fawr o geisiadau yn dilyn hysbysebu mewn papurau newydd lleol ac yn sgil gwneud defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol (Twitter a Facebook) a gwefan y Cyngor i hysbysebu'r cyfle.
- 4.2. Roedd y broses ymgeisio'n rhedeg o ganol mis Rhagfyr 2017 hyd at 31 Ionawr 2018, gyda cheisiadau yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Adfywio ym mis Chwefror a Mawrth 2018 a'u cadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth lawn ar 17 Ebrill 2018.
- 4.3. O ystyried bod y broses hon wedi gweithio'n dda, cynigir dilyn yr un drefn yn 2019.

#### **5. MEINI PRAWF CYMHWYSTER**

5.1 Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth: -

- gall sefydliad wneud ceisiadau am gymorth gyda chostau rhedeg ond mae'n rhaid i'r sefydliad allu dangos yn eglur yn y cais sut y bydd yn sicrhau hyfywedd ariannol y prosiect yn y dyfodol unwaith y bydd y cyllid gan yr Ymddiriedolaeth yn dod i ben;
- gall sefydliad sydd wedi derbyn grant bach yn flaenorol wneud cais am grant mwy ond ni all sefydliad dderbyn grant bach a grant mwy mewn dwy flynedd yn olynol a dim ond un grant bach ac un grant mwy a roddir mewn unrhyw gyfnod treigl o bum mlynedd.

5.2 Yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017, argymhellodd yr Ymddiriedolaeth ymhellach y gall mudiadau sydd wedi derbyn cyllid o fewn y bum mlynedd flaenorol wneud ceisiadau, ond bod y ceisiadau yma'n cael eu hystyried ar ôl i'r holl geisiadau eraill gael eu hystyried a bod cyllid dal ar gael.

#### **6. ARGYMHELLION**

6.1 Gofynnir i'r Ymddiriedolaeth gymeradwyo'r argymhellion canlynol: -

1. Dyrannu grantiau mwy eto yn 2019 a bod yr SCE, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn adolygu a ddylid parhau i ddyfarnu grantiau mwy o 2020 ymlaen.
2. Dyrannu swm o £350,000, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, i gyllido'r grantiau mwy yn 2019.
3. Gwahoddir ceisiadau ar unwaith gyda dyddiad cau o 31 Ionawr 2019 ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau.
4. Bod y Pwyllgor Adfywio yn ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2019, yn dilyn y meini prawf a nodir ym mharagraffau 5.1 a 5.2 o'r adroddiad hwn, gyda argymhellion y Pwyllgor hwn yn cael eu hystyried gan yr Ymddiriedolaeth lawn ar 16 Ebrill 2019.



# DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

(GRANT NEUADD PENTREF LLANDDONA /LLANDDONA VILLAGE HALL GRANT)

## PRAWF BUDD Y CYHOEDD / PUBLIC INTEREST TEST

<p>Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972                  Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972</p>	
<p>Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei chronfeydd yn cael eu defnyddio.</p> <p>The Trust is open and transparent how its funds are being used</p>	<p>Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif i'r Ymddiriedolaeth neu'r mudiad sy'n derbyn grant.</p> <p>The attached report contains commercially sensitive information for the Trust or to the organisation receiving a grant.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/<del>Hai o bwys</del> na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/<del>does not outweigh</del> the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

*(GRANT CLWB PEL DROED CEMAES /CEMAES F.C. GRANT)*

## PRAWF BUDD Y CYHOEDD / PUBLIC INTEREST TEST

<p>Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972                  Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972</p>	
<p>Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei chronfeydd yn cael eu defnyddio.</p> <p>The Trust is open and transparent how its funds are being used</p>	<p>Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif i'r Ymddiriedolaeth neu'r mudiad sy'n derbyn grant.</p> <p>The attached report contains commercially sensitive information for the Trust or to the organisation receiving a grant.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/<del>Hai o bwys</del> na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/<del>does not outweigh</del> the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank



# DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

*(GRANT CYMDEITHAS Y BYDDAR GOGLEDD CYMRU/  
NORTH WALES DEAF ASSOCIATION GRANT)*

## PRAWF BUDD Y CYHOEDD / PUBLIC INTEREST TEST

<p>Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972</p>	
<p>Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei chronfeydd yn cael eu defnyddio.</p> <p>The Trust is open and transparent how its funds are being used</p>	<p>Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif i'r Ymddiriedolaeth neu'r mudiad sy'n derbyn grant.</p> <p>The attached report contains commercially sensitive information for the Trust or to the organisation receiving a grant.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/<del>Hai o bwys</del> na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/<del>does not outweigh</del> the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	



Document is Restricted

This page is intentionally left blank